

Oes angen delio â'r broblem ar frys?

Ydych chi'n credu bod y myfyriwr:

- Wedi stopio edrych ar ôl ei hun?
- Yn ddifriol wael yn gorfforol?
- O bosib yn risg difrifol iddo ef/iddi hi ei hun neu eraill

Oes

Fydd y myfyriwr yn fodlon derbyn cymorth?

Bydd

1. Ydy'r myfyriwr wedi gweld Ymarferydd Iechyd Meddwl o'r blaen? A ellir cysylltu â'r person hwnnw?
2. Cysylltwch â meddyg teulu - meddyg teulu'r myfyriwr ei hun neu **Feddygfa Bodnant (01248 364492)** i drefnu apwyntiad brys. Gellwch chi neu'r myfyriwr drefnu'r apwyntiad fel sy'n briodol.
3. Cysylltwch ag Ymgynghorydd Iechyd Meddwl PB.
4. A yw'r myfyriwr yn gwybod am y gwasanaeth [Iechyd Meddwl galw-heibio ar-lein](#) a [sesiynau cymorth ffôn dyddiol y gwasanaeth cwnsela](#)?

Na

A ellwch chi helpu?

Oes gennych chi'r amser ac / neu'r sgiliau?

Na

Ymgynghorwch ag un o'r canlynol:

- Ymgynghorydd Iechyd Meddwl
- Cwnselydd ar Ddyletswydd
- Rheolwr Llinell

Os yw'r sefyllfa'n gwaethygu a'ch bod yn pryderu am ddiogelwch / lles y myfyriwr, cynghorwch y myfyriwr i ffonio'r **rhif GIG 0845 4647**.

Os yw'r sefyllfa'n gwaethygu a bod y myfyriwr yn byw mewn neuadd breswyl a'ch bod yn pryderu am eu diogelwch uniongyrchol neu'ch diogelwch eich hun cysylltwch â **Diogelwch ar 2795**.

Os yw'r myfyriwr **oddi ar y campws** a'ch bod yn pryderu am rywun neu amdanoch eich hun ffoniwch **rif yr heddlu (heb fod yn argyfwng), 101 a chofrestru pryder am les**. Byddwch angen enw'r person, eu cyfeiriad hysbys diwethaf a'u rhif ffôn.

Oes

Gall cymorth priodol gynnwys:

- Gwrando ar bryderon myfyrwyr.
- Cynghori os yw'n briodol.
- Darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau cymorth eraill: Undeb y Myfyrwyr / Cwnsela / Caplandai / Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Cadw cofnod o'r prif faterion.
- Rhannu eich pryderon lle bo hynny'n briodol ar sail 'angen gwybod'.

Nodyn am gyfrinachedd:

Cyngor cychwynnol - Gellwch geisio cyngor cychwynnol, heb dorri cyfrinachedd, trwy beidio â datgelu enw'r myfyriwr.

Ceisio caniatâd - Cyn holi rhywun am les myfyriwr, dylid gofyn am ganiatâd y myfyriwr os yn bosib.

Torri Cyfrinachedd - Os ydych yn credu y dylid torri cyfrinachedd, holwch reolwr llinell yn gyntaf, lle bo'n bosib.

Gwrthod Caniatâd - Os yw'r myfyriwr yn gwrthod caniatâd ond eich bod o'r farn bod eu diogelwch hwy neu ddiogelwch pobl eraill mewn perygl, mae angen i chi rannu'r wybodaeth hon fel 'dyletswydd gofal'.

Rhannu gwybodaeth - Dylid rhannu gwybodaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ar sail 'angen gwybod'.